# Creu Adnoddau Hunandywys i Deuluoedd

Ein awgrymiadau gorau am greu adnoddau hunandywys i blant a theuluoedd yn eich amgueddfa neu safle treftadaeth.

**Crëwyd y canllaw hwn mewn partneriaeth â Sarah Shaw, Cyfarwyddwr Museum Tales Ltd. Mae Sarah wedi cynhyrchu dehongliadau addas i deuluoedd ar gyfer English Heritage, York Art Gallery, Abaty Caerfaddon a safleoedd eraill ledled Prydain.**

Mae Kids in Museums yn credu y dylai croesawu teuluoedd i'ch safle fod yn flaenoriaeth i unrhyw amgueddfa, ond gall y syniad achosi pryder i staff a gwirfoddolwyr. Rydym wedi creu'r canllaw byr yma i'ch cefnogi chi a'ch tîm i ddatblygu amgylchedd mwy croesawgar i deuluoedd drwy gyflwyno adnoddau hunandywys iddynt.

Nodwch, nid yw'r adnodd hwn yn cynnwys adnoddau digidol neu ryngweithiol.

## Ymhle ydw i'n cychwyn?

Gwyddom fod teuluoedd o bob math i'w cael a bod gan amgueddfeydd a'u staff lefelau gwahanol o sgiliau, cyllidebau ac adnoddau i gynhyrchu'r adnoddau i'w croesawu nhw.

Felly, sut ydych chi'n mynd ati i ddechrau cynhyrchu adnoddau i ateb eu hanghenion gwahanol? I ddechrau, meddyliwch pwy rydych eisiau eu croesawu, pam a sut. Mae gwahaniaeth mawr rhwng plentyn 5 oed a pherson ifanc 15 oed, ac eto yn aml iawn dim ond un llwybr neu adnodd sydd ar gael i bawb. Yn hytrach na chreu un math i bawb, ceisiwch greu adnoddau i grwpiau oedran penodol – hyd yn oed os yw'n adnodd tebyg sy'n cael ei addasu i wahanol grwpiau.

Gallech chi ddefnyddio'r canlynol fel grwpiau bras i'w dilyn:

- O dan 5
- 5-11 oed
- 11+ oed
- Teuluoedd gydag anghenion addysgol arbennig ac anableddau (AAAA).

Mae Speech and Language UK yn rhannu'r oedrannau hyn yn fanylach yn ei ganllaw Ages and Stages a gallwch ddarllen rhagor ynglŷn ag adnodd eich cynulleidfa yn ein hadnodd Creu Dehongliadau sy'n Addas i Deuluoedd.

Unwaith y byddwch wedi dewis eich grwpiau oedran, chwiliwch o'ch cwmpas am ysbrydoliaeth ac i weld beth mae pobl eraill wedi ei gynhyrchu. Ar draws y sector byddwch yn gweld pob mathau o ffyrdd o ennyn diddordeb teuluoedd, o lwybrau i warbaciau, ac o laniardau i becynnau adnoddau.

## Cyllideb

Bydd unrhyw adnodd a grëwch yn creu cost – p'un a yw hynny am brynu deunyddiau neu amser aelod o'r staff. Hefyd, byddwch yn gweld dros amser bod angen adnewyddu ac ail argraffu eich llwybrau, eich deunyddiau wedi lamineiddio, eich pecynnau a'ch cynnwys.

Cyn i chi ddechrau creu eich adnoddau, gwnewch yn siŵr eich bod wedi trefnu bod gennych yr arian yn eich cyllideb ar eu cyfer. Does dim byd gwaeth i deulu na gweld hysbysiad am adnodd a does dim ar ôl neu mae eitemau ar goll ohono. Gyda gwarbaciau, meddyliwch faint ohonyn nhw y byddwch angen eu cynnig ar yr adegau prysuraf, a gyda'r llwybrau ystyriwch sawl copi y gallwch ddisgwyl eu dosbarthu yn ystod cyfnodau prysur yn y gwyliau.

Hefyd, meddyliwch am gostau cynhyrchu – os ydych yn gweithio gyda dylunwyr, bydd angen i chi roi briff clir iddyn nhw er mwyn iddynt allu rhoi pris i chi am y gwaith. Cofiwch gynnwys dwy rownd o addasiadau – unwaith y bydd eich tîm wedi edrych arnynt bydd angen gwneud newidiadau iddynt fel arfer. Mae gan South West Museum Development adnodd defnyddiol am gynhyrchu briffiau i weithwyr llawrydd.

Meddyliwch am hyn cyn i chi benderfynu pa fath o adnodd i'w ddewis. Efallai y byddwch yn dewis llwybr papur am eich bod yn gwybod y gallwch gynnwys y costau argraffu yng nghyllideb eich rhagolwg blynyddol, neu efallai y byddwch yn dewis laniard wedi'i lamineiddio am eich bod yn gwybod y gallwch eu cynhyrchu nhw'n rhad. Cofiwch feddwl am lwybrau tymhorol hefyd, i gadw diddordeb eich ymwelwyr sy'n dychwelyd dro ar ôl tro.

Awgrym bach: mae llwybrau papur gyda phlygiadau cymhleth, darnau wedi eu torri allan a siapiau ffansi yn costio mwy i'w cynhyrchu na rhai syml. Mae'n haws prynu nifer fawr os oes gennych rywle i storio'r llwybrau sydd dros ben nes byddwch eu hangen.

## Creu eich cynnwys

Waeth pa adnodd a ddewiswch, meddyliwch yn ofalus am gynnwys eich adnodd. Dyma rai awgrymiadau da am greu cynnwys effeithiol:

- **Ystyriwch ddefnyddio masgot i dywys y daith.** Cynhyrchodd Museum Tales yr adnodd gwarbac yma i blant dan 5 oed gyda'r masgot Abi y Llew yn Abaty Caerfaddon. Mae hyn bob amser yn ddefnyddiol, yn arbennig gyda phlant iau. Gallwch ddefnyddio eich masgot i dynnu sylw at fannau eraill sy'n addas i deuluoedd hefyd, a hyd yn oed werthu eich masgot yn y siop er mwyn i'r plant gofio eu hymweliad.

- **Cadwch y cynnwys yn unigryw i'ch safle chi er mwy gadael i deuluoedd ddysgu rhagor am eich casgliadau.** Gallant wneud taflen liwio generig neu chwilair yn unrhyw le yn yr amgueddfa – felly cysylltwch y rhain gyda'ch cynnwys. Edrychwch ar y llwybr hwn gan National Museums Scotland i gael ysbrydoliaeth.
- **Cadwch y llwybr a'r gweithgareddau'n aflinol.** Anaml iawn y mae plant yn cerdded mewn llinell syth! Mae Amgueddfa Keswick wedi creu Llwybr Fy Llygad Bach i y gall y plant ei gwblhau mewn unrhyw drefn a ddymunant.
- **Ceisiwch gynnwys amrywiaeth o ddulliau dysgu a chwarae.** Mae hyn yn golygu sicrhau amrywiaeth o weithgareddau, yn hytrach na dim ond dibynnu ar un, fel cyfri eitemau. Gallwch ddysgu mwy am ddulliau chwarae yn yr adnodd yma gan Chwarae Cymru a gallwch hyd yn oed wneud prawf ar-lein i ganfod eich dull dysgu chi'ich hun.

## Sut mae adnoddau hunandywys yn edrych

Mae llu o enghreifftiau gwych o adnoddau hunandywys i'w cael. Gwelwch y dolenni hyn i'ch helpu i ddechrau meddwl am syniadau.

### Plant o dan 5

- Mae gan Museum of the Home rai adnoddau hyfryd i blant o dan 5 oed. Yn cynnwys gwarbaciau, llwybrau a thaflenni lliwio.
- Crëodd y Dales Countryside Museum warbaciau ac adnoddau addas i deuluoedd yn rhan o un o garfannau hyfforddi Kids in Museums.
- Mae pecyn cymorth gan Museum of London Early Years yn rhoi manylion amrywiaeth o ddulliau o greu adnoddau i blant o dan 5 oed ar safleoedd diwylliannol.

### 5-11 oed

- Mae gan y Royal Air Force Museum gyfres o warbaciau, llwybrau ac adnoddau digidol ar eu gwefan.
- Mae gan yr Amgueddfa Ashmolean yn Rhydychen adnoddau niferus, yn cynnwys llwybrau gweithgareddau nad oes angen pensiliau ar eu cyfer.

### Pobl ifanc dros 11 oed

- Mae'r llwybr Looking at Art gan York Art Gallery yn ffordd wych o annog pobl ifanc i ymgysylltu ag eitemau'r casgliad.
- Mae her ffotograffiaeth yn ffordd wych o ganolbwyntio sylw mewn un lle. Roedd y People's History Museum wedi gwneud hyn yn ei lwybr ffotograffiaeth ar gyfer ei arddangosfa The Past, Present and Future of Protest.

## Teuluoedd AAAA

Rydym eisiau i bob teulu allu mwynhau ein casgliadau. Mae creu adnoddau AAAA yn agor eich safle i hyd yn oed fwy o blant.

- Gwelwch Maidstone Museum i gael ysbrydoliaeth am greu gwarbaciau chwarae ac offer cyfathrebu.
- Mae National Mining Museum Scotland yn darparu gwarbaciau AAAA, cardiau trefn yr ymweliad a byrddau cynllunio i ymwelwyr.

Os yw creu adnoddau AAAA yn beth newydd i chi, neu os ydych eisiau ysbrydoliaeth, gwelwch wefan SEND in Museums. Mae'r wefan hon yn llawn o wybodaeth, cyngor ac ysbrydoliaeth i'ch helpu i greu eich pecynnau, mapiau synhwyraidd ac offer cyfathrebu eich hun.

## Elfennau Ymarferol

Pan fyddwch wedi creu llwybr neu warbac rhagorol y peth olaf y byddwch ei eisiau yw gweld nad yw'n cael ei ddosbarthu i deuluoedd neu bod eitemau ar goll neu ddim ar gael. Sicrhewch nad yw hyn yn digwydd drwy weithio gyda'ch tîm i greu'r paciau, a chyfathrebu'n gyson drwy'r cam datblygu – cydweithiwch i gynllunio sut y bydd adnoddau'n cael eu dosbarthu a'u casglu. Esboniwch pam mae teuluoedd mor bwysig i'ch safle (nhw yw prynwyr tocynnau'r dyfodol!) a sut mae dosbarthu'r adnoddau hyn yn dangos iddynt eich bod yn croesawu teuluoedd.

Os byddwch yn llunio taflen sy'n rhoi pwyntiau gwybodaeth i'r tîm ar y ddesg flaen, gan esbonio beth yw'r adnodd, beth sydd ynddo, sut i gael gafael ar fwy o eitemau ac i bwy mae wedi ei fwriadu, gall hyn fod o gymorth mawr i bobl sydd ychydig yn nerfus am weithio gyda theuluoedd. Gallwch hefyd drefnu hyfforddiant blaen tŷ wedi ei deilwra'n benodol drwy Kids in Museums i'ch helpu i sicrhau cefnogaeth eich tîm.

Yn debyg i unrhyw adnodd, mae hefyd yn hanfodol bwysig cadw eich deunyddiau'n hygyrch. Mae lliwiau llachar a darluniau lliwgar yn wych a gallant apelio'n fawr at deuluoedd, ond cofiwch gadw egwyddorion mynediad yn eich meddwl er mwyn sicrhau bod eich testun yn ddarllenadwy ac yn cyflawni'r argymhellion am arferion gorau.

Yn olaf, os byddwch yn prynu deunyddiau ar gyfer gwarbaciau, fel teganau ac eitemau i'w trin â'r dwylo, gwnewch yn siŵr eu bod nhw'n addas i oedran y plant. Gallwch gael rhywfaint o sicrwydd drwy brynu'r eitemau gan werthwyr yn y Deyrnas Unedig gyda labeli oedran clir arnynt, sy'n cyflawni'r Safonau Prydeinig ar gyfer diogelwch. Mae'n hanfodol cael adnoddau addas i oedran er mwyn osgoi anafiadau neu beryglon tagu. Hefyd, efallai y byddwch eisiau gwerthu eitemau yn eich siop i'r plant eu cymryd adref i gofio eu hymweliad

**Profwch, Profwch, Profwch**

Yn olaf, pan fyddwch yn cynhyrchu unrhyw adnoddau i deuluoedd, cofiwch ysgrifennu gyda nhw, nid iddyn nhw. Efallai y gallech sefydlu grŵp ffocws i brofi eich syniadau, neu gofynnwch i deuluoedd lleol roi sylwadau ar eich panelau i sicrhau eu bod nhw'n addas i'w pwrpas.

**Darllen pellach / Adnoddau defnyddiol**

Y newyddion da yw bod llwyth o gymorth ar gael gyda chynhyrchu adnoddau addas i deuluoedd. Dyma restr ddarllen gyflym i'ch cadw chi'n mynd:

- Ffyrdd di-gost a rhad o gyflawni Maniffesto Kids in Museums
  Mae hwn yn cynnwys syniadau am lwybrau a phaciau.
- Astudiaeth Achos Diwrnod Meddiannu: Amgueddfa Hertford – Kids in Museums
  Gwelwch yr astudiaeth achos hon o Amgueddfa Hertford a'r llwybr a grëwyd ganddynt gyda phlant ar Ddiwrnod Meddiannu 2022.
- Sensory Explorers – National Maritime Museum
  Gwaith un amgueddfa i greu adnoddau synhwyraidd gyda chymorth teuluoedd AAAA.
- Llwybr Rhad ac am Ddim i Deuluoedd AAAA – SEND in Museums
  Mae SEND in Museums yn cynnig llwybrau AAAA i amgueddfeydd y gallwch eu lawrlwytho'n rhad ac am ddim.
- Pecyn Cymorth Gwerthuso i Ymarferwyr Amgueddfeydd – SHARE Museums East
  Mae'r pecyn cymorth hwn yn ddefnyddiol i ddatblygu technegau ymgynghori.
- Canllawiau dehongli – Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol
  Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi cyflwyno canllaw gwych sy'n cynnwys gwybodaeth glir am gynhyrchu dehongliadau hygyrch

Yn aml iawn mae Kids in Museums yn cynnig llwybrau rhad ac am ddim i amgueddfeydd ac orielau eu defnyddio yn ystod gwyliau'r hanner tymor mewn partneriaeth â chyhoeddwyr. Mae'r rhain ar gael fel arfer i'r bobl sy'n gofyn amdanynt gyntaf. Gwnewch yn siŵr eich bod ar y Rhestr Wirio Amgueddfeydd i gael gwybod am unrhyw gyfleoedd sydd ar y gweill.